# Y CABINET DYDD MAWRTH, 19 IONAWR 2016

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwr: Dyfed Wyn Edwards, Dyfrig L. Siencyn, Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies, E. Selwyn Griffiths a Craig ab Iago

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant (Dros Dro)), Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg), Delyth Gadlys Williams (Swyddog Polisi Corfforaethol), Arwel Wyn Owen (Uwch Reolwr Tai), Eleri Llewelyn Owen (Rheolwr Prosiect Dros Dro), Gwern ap Rhisiart (Uwch Reolwr A D Y a Chynhwysiad Addysg) a Wyn Meredydd Hughes (Engagement and Support Services Manager)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet, y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Craig ab Iago, a Swyddogion i'r cyfarfod.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 15FED O RAGFYR 2015

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y Cabinet a gynhaliwyd ar 15eg o Ragfyr 2015.

## 6. NEWIDIADAU YN Y GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNWYSIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNIAD**

1. Parhau i gynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn ymchwilio’r cyfle i lunio Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gyffredin a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a’r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon.

2. Cymeradwyaeth y Cabinet o Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad; gan ddal sylw i’r bwriad yn 1.

3. Cymeradwyaeth o’r Achos Busnes - sef buddsoddiad unwaith ac am byth o hyd at £1,380,131 er mwyn dangos arbediad blynyddol parhaol o leiaf £808,461.

## 7. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016-20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 fel drafft ar gyfer ymgynghoriad gyda’r cyhoedd.

## 8. ADOLYGIAD ANGHENION LLETYA SIPSIWN A THEITHWYR GWYNEDD A MON

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.
Eiliwyd gan y Cynghorwyr Dafydd Meurig a John Wynn Jones.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo’r argymhellion a wnaethpwyd yn yr Adolygiad Anghenion Lletya Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn gan ganolbwyntio ar argymhellion Gwynedd sydd wedi eu nodi o 1-7 yn nhabl Argymhellion ac Oblygiadau yr adroddiad a gyflwynwyd i’r cyfarfod.

## 9. YMGYNGHORIAD AR DDYFODOL CARTREF Y FRONDEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.
Eiliwyd gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Datblygu Opsiwn 5, sef model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ar safle Y Frondeg.

Dod â defnydd cartref preswyl cofrestredig Y Frondeg i ben, yn dilyn cwblhau'r datblygiad llety newydd.

Trosglwyddo’r safle i bartner gweithredol e.e. cymdeithas tai er cyd-weithio mewn partneriaeth i ddatblygu’r model llety newydd.

## 10. YMCHWILIAD IAITH - Y GYMRAEG MEWN CYFARFODYDD

Croesawyd y Cyng. Craig ab Iago i’r cyfarfod, ac fe amlinellodd yntau brif argymhellion yr Ymchwiliad Iaith i’r defnydd o’r iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd.

Derbyniwyd yr adroddiad gan y Cabinet, a chytunodd y Dirprwy Arweinydd, yn ei rôl fel deilydd y portffolio iaith Gymraeg, i weithredu ar argymhellion yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.45 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**